## S4C 'vital to safeguarding Welsh culture'

It is hard to overestimate the importance of S4C as a public service to local communities across Wales, in safeguarding and promoting the Welsh language and culture, and in developing a vibrant media sector across Wales. S4C is now targeted for cuts of 25% which threatens its independence and ability to deliver its wide range of services. Jake Griffiths, Green Party Assembly candidate said "Since its inception nearly 3 decades ago S4C has been central to developing a modern forward looking image of Wales - both language and culture - to new generations of speakers and non-speakers alike in an age of multi channel TV and internet. The channel continues to innovate with the recent launch of its Cyw programmes for young children at a time when other stations are cutting back on children's programming - recognition that young people are the future of the Welsh language. S4Cs independence and financial viability are vital to safeguarding Welsh culture and they must be maintained."

## 'Ieuan Air' subsidy rockets

Following news that the Welsh Government is increasing the level of subsidy for 'IeuanAir' by 50% to £1.2 million per year, the Wales Green Party has called for the subsidised air service from North to South Wales to be scrapped and for the funding to be moved to rail. John Matthews, Green Party Assembly Candidate commented: "'Ieuan Air' has proved to be of little use in bringing North and South Wales together, benefitting only a handful of Assembly Members and business people. Earlier this year we argued that this money was better spent on improving the Cardiff-Holyhead rail service, or as a first step to reopening the former rail link, investing in a study to reopen the rail link between Bangor and Caernarfon. The air service was subsidised to the tune of £80 per passenger which will now increase. Surely such a subsidy is better spent on the trains, where more people will see the benefit?"

# Caroline makes history as first Green Party MP

"Thank you to everyone who voted Green – wherever you live, in helping to achieve such an historic milestone in Green politics and social justice.

I don't think any words could express how it felt at that moment when, just before 6am on Friday 7 May, after one of the most intensely fought elections for a generation and what seemed like hours of waiting as ballots were counted, I was told that the Greens had just edged ahead of the other parties in Brighton Pavilion constituency.

We shouldn't forget that this wasn't the best time to ask people to take a risk in politics.

We all know in the Green party that politics in the UK desperately needs to renew itself, and allow new ideas and visions to emerge. But also how difficult this is to achieve.



What was so encouraging in the election was that despite the flagging economy and the expenses scandal, in Brighton and other Green hot spots around the country, we persuaded thousands of people that voting Green was a risk worth taking.

Nationally, we won over a quarter of a million votes in one of the most difficult elections any small party could have faced with all the focus on the TV leader debates which excluded our party. Yet, despite this, many people voted for the politics of hope over the politics of fear.

For the first time for many years a national political party has taken its rightful place in Parliament.

You have to go back several decades, to the election of the first nationalist MPs, to find the last maiden speech from a new national political party – and before that to 1891 when Keir Hardie was elected as the first MP for the Independent Labour Party right here in Wales.

Progressive taxation, votes for women, free schooling, pensions and abolition of the House of Lords formed his platform. Though the last of these is still an urgent task, the rest are now seen as essential to our society. What was once radical and revolutionary in time becomes understood and accepted.

I pledge to inject the politics of environmental and social justice into the political debate in Parliament.

That will include focussing on security of energy supply, fuel poverty, tackling pollution and resource depletion, dramatically reducing inequality and striving for steady state economics.

If only our message had been heeded nearly 40 years ago, I'd like to think we would be much closer to the genuinely sustainable economy that we so urgently need, than we are today."

Caroline Lucas
Green Party Leader and MP

---

Come and hear
**Caroline Lucas and Jake Griffiths**
at a public meeting during the
Green Party Conference, Cardiff (25-28 February)
For more information:
http://greenparty.org.uk/



Dewch i wrando ar
**Caroline Lucas a Jake Griffiths**
mewn cyfarfod cyhoeddus yn ystod
Cynhadledd y Blaid Werdd, Caerdydd (25-28 Chwefror)
Am fwy o wybodaeth:
http://greenparty.org.uk/

---

# Caroline yn creu hanes fel AS cyntaf y Blaid Werdd

"Diolch i bawb a bleidleisiodd i'r Gwyrddion – lle bynnag yr ydych yn byw, am helpu i gyraedd y fath garreg filltir hanesyddol mewn gwleidyddiaeth Werdd a chyfiawnder cymdeithasol.

Dydw i ddim yn meddwl y gall unrhyw eiriau fynegi sut yr oeddwn i'n teimlo ar y foment honno pan, ychydig cyn 6yb ar ddydd Gwener 7 Mai, ar ôl un o'r etholiadau agosaf ers cenedlaethau a'r hyn oedd yn teimlo fel oriau o aros wrth i'r pleidleisiau gael eu cyfrif, y dywedwyd wrthyf bod y Gwyrddion wedi achub y blaen ar y pleidiau eraill yn etholaeth Brighton Pavilion o ryw fymryn.

Cofier nad hwn oedd yr amser gorau i ofyn i bobl gymryd risg mewn gwleidyddiaeth.

Rydym ni yn y blaid Werdd i gyd yn gwybod bod angen dirfawr i wleidyddiaeth yn y DU adnewyddu'i hun, a chaniatáu i syniadau a gweledigaethau newydd ymddangos. Ond hefyd pa mor anodd yw hyn i'w gyflawni.

Yr hyn oedd mor galonogol yn yr etholiad oedd ein bod, er gwaetha'r economi simsan a'r sgandal treuliau, yn Brighton a chadarnleoedd Gwyrdd eraill o amgylch y wlad, wedi argyhoeddi miloedd o bobl bod pleidleisio i'r Gwyrddion yn risg werth ei chymryd.

Yn genedlaethol, fe enillon ni dros chwarter miliwn o bleidleisiau yn un o'r etholiadau anoddaf y gallai unrhyw blaid fechan fod wedi'i wynebu gyda'r holl sylw ar y dadleuon teledu rhwng yr arweinyddion nad oedd yn cynnwys ein plaid ni. Eto, er gwaethaf hyn, pleidleisiodd llawer o bobl dros wleidyddiaeth gobaith yn hytrach na gwleidyddiaeth ofn.



Am y tro cyntaf ers blynyddoedd lawer mae plaid wleidyddol genedlaethol wedi cymryd ei phriod le yn y Senedd.

Mae'n rhaid mynd yn ôl sawl degawd, at etholiad yr ASau cenedlaetholgar cyntaf, i ddod o hyd i'r enghraifft ddiweddaraf o araith gyntaf gan blaid wleidyddol genedlaethol newydd – a chyn hynny i 1891 pan etholwyd Keir Hardie yn AS cyntaf y Blaid Lafur Annibynnol yma yng Nghymru.

Trethi blaengar, pleidleisiau i fenywod, addysg am ddim, pensiynau a diddymu Tŷ'r Arglwyddi oedd ei blatfform. Er bod yr olaf o'r rhain yn dal i fod angen ei gyflawni ar frys, mae'r gweddill erbyn hyn yn cael eu hystyried yn hanfodol i'n cymdeithas. Mae'r hyn a fu unwaith yn radical a chwyldroadol yn dod gydag amser yn ddealladwy ac yn dderbyniol.

Rwy'n addo gwneud gwleidyddiaeth cyfiawnder amgylcheddol a chymdeithasol yn rhan o'r ddadl wleidyddol yn San Steffan.

Bydd hynny'n cynnwys canolbwyntio ar ddiogelwch ffynonellau ynni, tlodi tanwydd, mynd i'r afael â llygredd a disbyddu adnoddau, lleihau anghyfartaledd yn ddramatig a gweithio tuag at economeg cyflwr cyson.

Petai pobl wedi cymryd sylw o'n neges ni bron 40 mlynedd yn ôl, rwy'n hoffi meddwl y bydden ni'n llawer agosach at yr economi wir gynaliadwy sydd ei hangen arnom ar gymaint o frys, nag ydyn ni heddiw."

Caroline Lucas
Arweinydd y Blaid Werdd ac AS

## S4C 'yn hanfodol i sicrhau dyfodol diwylliant Cymraeg'

Mae'n anodd gorbwysleisio pwysigrwydd S4C fel gwasanaeth cyhoeddus i gymunedau lleol ledled Cymru, yn diogelu a hybu'r iaith a'r diwylliant Cymraeg, ac yn datblygu sector cyfryngau sy'n ffynnu ledled Cymru. Mae S4C nawr yn wynebu toriadau o 25% sy'n bygwth ei hannibyniaeth a'i gallu i gyflenwi ei hystod eang o wasanaethau.

Meddai Jake Griffiths, ymgeisydd Cynulliad i'r Blaid Werdd, "Ers ei sefydlu bron i 3 degawd yn ôl mae S4C wedi bod yn ganolog i ddatblygu delwedd fodern o Gymru sy'n edrych tuag at y dyfodol – o ran iaith a diwylliant – i genedlaethau newydd o Gymry Cymraeg a di-Gymraeg fel ei gilydd mewn oes o ddeledu aml sianel a'r rhyngrwyd. Mae'r sianel yn parhau i arloesi gyda lansiad diweddar ei rhaglenni Cyw ar gyfer plant ifanc ar adeg pan mae sianeli eraill yn lleihau eu rhaglenni plant – cydnabyddiaeth mai pobl ifanc yw dyfodol yr iaith Gymraeg. Mae annibyniaeth a dichonoldeb ariannol S4C yn hanfodol i sicrhau dyfodol i'r diwylliant Cymraeg ac mae'n rhaid eu gwarchod."

## Cymhorthdal 'Ieuan Air' yn codi i'r entrychion

Yn dilyn y newyddion bod Llywodraeth y Cynulliad yn cynyddu'r cymhorthdal i 'IeuanAir' o 50% i £1.2 miliwn y flwyddyn, mae Plaid Werdd Cymru wedi galw am gael gwared ar y gwasanaeth awyr â chymhorthdal o Ogledd i Dde Cymru ac i'r arian gael ei symud i'r rheilffyrdd. Dywedodd John Matthews, Ymgeisydd Cynulliad i'r Blaid Werdd: "Dyw 'Ieuan Air' heb fod o lawer o ddefnydd wrth ddod a Gogledd a De Cymru at ei gilydd, a dim ond dyrnaid o Aelodau Cynulliad a phobl busnes sydd wedi elwa ohono. Yn gynharach eleni buom yn dadlau y byddai'n well gwario'r arian ar wella'r gwasanaeth rheilffordd rhwng Caerdydd a Chaergybi, neu fel cam cyntaf tuag at ailagor yr hen gyswllt rheilffordd, i fuddsoddi mewn astudiaeth i ailagor y cyswllt rheilffordd rhwng Bangor a Chaernarfon. Roedd y gwasanaeth awyr yn derbyn cymhorthdal o £80 y teithiwr, ac yn amlwg bydd hyn yn cynyddu nawr. Does bosib na fyddai'n well gwario cymhorthdal o'r fath ar y trenau, lle bydd mwy o bobl yn elwa ohono?"




Barceló | Cardiff Angel Hotel

Barceló Cardiff Angel Hotel welcomes the
**Green Party Spring Conference to Cardiff**
Special accommodation rate for attendees
**£75.00 single occupancy £87.00 double occupancy**

- 7 flexible meeting rooms for up to up to 300 delegates
- 102 air-conditioned bedrooms
- Wi-Fi internet access throughout the hotel
- Restaurant and cocktail bar offering traditional Welsh and international cuisine
- City centre location, between the Millennium Stadium and Cardiff Castle
- Parking available on-site and additional parking in close proximity

MeetBarceló HOTELS & RESORTS

**To make a reservation please Call 02920 649 200 or email angel.mande@barcelo-hotels.co.uk quoting WGP1**
Rates valid 24th – 28th February 2011, subject to availability.

Barceló Cardiff Angel Hotel | Castle Street | Cardiff | South Glamorgan CF10 1SZ
**Tel:** 02920 649 200 | **Email:** angel.mande@barcelo-hotels.co.uk | www.barcelo-hotels.co.uk


# Supporting students and their families

With the Liberal Democrats abandoning students in Government , only Greens are opposed to saddling young people will ever more debt after university. Recognising that an educated society benefits everyone, not just the individual, Greens support scrapping tuition fees and funding Higher Education through increased taxation on the highest earners.

High earning graduates will still contribute to their education under this model, but without saddling millions of young people with debt at the beginning of their working lives.

Sam Coates, Assembly Candidate and a Cardiff-based postgraduate student said: "The UK already charges some of the highest fees in the EU. Now we're looking at the highest in the world with the adoption of a free for all market system. This will likely lead to a two tier system - one for the rich in elite universities, and a race to the bottom for the rest."

He welcomed plans by Assembly Minister Leighton Andrews to freeze tuition fees for Welsh domiciled students.

Sam continued: "But it's not just the coalition government who are responsible for this. The Labour party also needs to accept their share of responsibility for introducing fees and failing to argue that a highly educated society benefits everyone."

# Lib Dems prop up savage Tory cuts

Many people who voted for the Liberal Democrats will be feeling misled after supporting a party they thought would keep the Tories out and prevent dangerous cuts to public spending.

Leila Keirch, Green Party Assembly candidate said; "Since joining a coalition with the Conservatives their MPs have abandoned their voters by putting people's jobs and the economy at risk by supporting savage cuts to public spending."

"The suggestion that front line services are not going to be affected by public sector cuts as large as this are ridiculous. And let's have no doubt about it - these cuts are going to hit the poorest and those most dependent on public services hardest. The Institute for Fiscal Studies has estimated the cuts will hit the poorest 10% hardest."

**Poorest 10% to be hit hardest by Con Dem cuts**

She continued "The cuts to services and increasing unemployment will not stop with the public sector. Public sector workers will be unable to spend their wages in the private sector – a vicious downward spiral threatens, increasing unemployment and making the deficit bigger as tax revenues decline."

## Dem Rhydd yn cefnogi toriadau mileinig y Toriaid

Bydd nifer o bobl a bleidleisiodd i'r Democrataid Rhyddfrydol yn teimlo eu bod wedi cael eu camarwain ar ôl cefnogi plaid yr oedden nhw'n meddwl fyddai'n cadw'r Toriaid allan ac atal toriadau peryglus i wariant cyhoeddus.

Meddai Leila Keirch, Ymgeisydd Cynulliad i'r Blaid Werdd; "Ers ymuno â chlymblaid gyda'r Ceidwadwyr mae eu ASau wedi cefnu ar eu pleidleiswyr trwy beryglu swyddi pobl a'r economi trwy gefnogi toriadau mileinig i wariant cyhoeddus."

"Mae'r awgrym na fydd gwasanaethau rheng flaen yn cael eu heffeithio gan doriadau sector cyhoeddus ar y raddfa hon yn chwerthinllyd. A does dim dwywaith amdani – bydd y toriadau hyn yn taro'r tlotaf a'r rheiny sy'n fwyaf dibynnol ar wasanaethau cyhoeddus galetaf. Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid wedi amcangyfrif y bydd y toriadau'n taro'r 10% tlotaf galetaf."

**bydd y toriadau'n taro'r 10% tlotaf galetaf**

Aeth yn ei blaen, "Bydd y toriadau i wasanaethau a diweithdra cynyddol yn mynd ymhellach na'r sector cyhoeddus. Ni fydd y gweithwyr sector cyhoeddus yn gallu gwario eu cyflogau yn y sector preifat – sy'n bygwth gwaethygu'r broblem drwy gynyddu diweithdra a gwneud y diffyg yn fwy wrth i refeniw trethi leihau."

# Cefnogi myfyrwyr a'u teuluoedd

Gyda'r Democratiaid Rhyddfrydol yn cefnu ar fyfyrwyr mewn Llywodraeth, dim ond y Gwyrddion sy'n gwrthwynebu rhoi baich mwy byth o ddyled i bobl ifanc ar ôl bod i brifysgol. Gan gydnabod bod cymdeithas addysgiedig o fudd i bawb, nid dim ond yr unigolyn, mae'r Gwyrddion yn cefnogi cael gwared ar ffioedd dysgu ac ariannu Addysg Uwch trwy gynyddu trethi ar y rhai sy'n ennill fwyaf.

Bydd graddedigion sy'n ennill llawer o arian yn dal i gyfrannu at eu haddysg yn y model hwn, ond heb roi'r baich o ddyled ar filiynau o bobl ifanc ar ddechrau eu bywydau gwaith.

Meddai Sam Coates, Ymgeisydd i'r Cynulliad a myfyriwr ôl-raddedig yng Nghaerdydd: "Mae'r DU yn barod yn codi rhai o'r ffioedd uchaf yn yr UE. Nawr rydyn ni'n ystyried y ffioedd uchaf yn y byd drwy fabwysiadu system farchnad hollol agored. Bydd hyn yn debygol o arwain at system ddwy haen – un i bobl gyfoethog yn y prifysgolion gorau, a ras tuag at y gwaelod i'r gweddill."

Croesawodd gynlluniau y Gweinidog Cynulliad Leighton Andrews i beidio codi ffioedd dysgu i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru.

Aeth Sam ymlaen: "Ond nid y llywodraeth glymblaid yn unig sy'n gyfrifol am hyn. Mae angen i'r blaid Lafur hefyd dderbyn ei siâr o'r cyfrifoldeb am gyflwyno ffioedd a methu â dadlau bod cymdeithas addysgiedig yn fuddiol i bawb."